# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 6, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MAWRTH, 13 RHAGFYR 2016 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Bu Mr A M Thomas (Cadeirydd Annibynnol) yn llywyddu.

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | T J Hennegan | P R Hood-Williams |
| L James | J W Jones | L V Walton |
| T M White | | |

**Swyddog(ion)**
Paul Beynon - Prif Archwiliwr
Richard Rowlands - Rheolwr Perfformiad Busnes
Tal Davies - Rheolwr Twyll Corfforaethol
Jeff Fish - Swyddog Ymchwilio Twyll Corfforaethol
Chris Williams - Pennaeth y Gwasanaethau Masnachol
Debbie Smith - Cyfreithiwr y Gyfarwyddiaeth
Pamela Milford - Uwch-gyfreithiwr
Jeremy Parkhouse - Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd
Kate Jones - Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol**
Geraint Norman - Swyddfa Archwilio Cymru

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P M Meara a/ac R V Smith

44 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol: -

Y Cynghorydd T M White – Eitem 9 yr Agenda – Adroddiad Ymchwiliad y Tîm Twyll Corfforaethol – Aelod o Fwrdd LAWDAC – Personol.

45 **CYFLWYNIAD HYFFORDDI - RHEOLI RISGIAU.**

Rhoddodd Richard, y Rheolwr Perfformiad Busnes, hyfforddiant i'r pwyllgor ar reoli risgiau. Amlygwyd y canlynol gan yr hyfforddiant: -

- Ystyr risg
- Y cylch rheoli risgiau
- Nodi risgiau
- Gwerthuso risgiau
- Ymateb i risgiau

- Rheoli risgiau
- Fframwaith Rheoli Risgiau ar dudalen
- Rôl y Pwyllgor Archwilio

Gofynnwyd cwestiynau i'r swyddog, a ymatebodd yn briodol. Roedd y cwestiynau'n ymwneud â'r canlynol: -

- Y broses ar gyfer rheoli risgiau
- Lefel risgiau
- Cofrestrau risgiau
- Adolygu cofrestrau risgiau a mynediad iddynt
- Dadansoddi risgiau ar gontractau unigol
- Risgiau'n gwaethygu
- Ymwybyddiaeth o reoli risgiau a hyfforddiant
- Dangosyddion perfformiad
- System TGCh newydd
- Amserlenni ar gyfer y fframwaith a'r system TGCh
- Cynnwys y cyhoedd
- Pennu a mesur targedau
- Targedau mwy deallus sy'n seiliedig ar ganlyniadau

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Cyflwyno am yr hyfforddiant a'r diweddariad.

**PENDERFYNWYD:** -

1) Nodi cynnwys yr hyfforddiant;
2) Cyflwyno diweddariad ar gynnydd rheoli risgiau ym mis Mawrth;
3) Dosbarthu'r cyflwyniad i'r pwyllgor.

46 **CYFLWYNIAD HYFFORDDI - GWRTH-DWYLL.**

Rhoddodd Tal Davies, Rheolwr y Tîm Twyll Corfforaethol, hyfforddiant i'r pwyllgor ar atal twyll. Amlygwyd y canlynol gan yr hyfforddiant: -

- Cyfrifoldeb Corfforaethol: Dyletswydd Ddeddfwriaethol
- Cyfrifoldeb Corfforaethol: Dyletswydd Gyfansoddiadol
- Rheol Gweithdrefn Ariannol (RhGA) 1: Rôl a chwmpas y RhGA
- RhGA 2: 2.1 Camau Rhesymol
- RhGA 2: 2.2 Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth
- RhGA 2: 2.3. Cydymffurfio
- RhGA 3: Cyfrifoldebau Rheolaeth Ariannol
- RhGA 12: Archwilio Mewnol
- Strategaeth Atal Twyll
- Nodau a chylch gwaith y Tîm Twyll Corfforaethol
- Atgyfnerthu'r cylch gwaith a'r nodau
- Manylion cyswllt y tîm

Gofynnwyd cwestiynau i'r swyddog, a ymatebodd yn briodol.  Roedd y cwestiynau'n ymwneud â'r canlynol: -

- Y broses ar gyfer penderfynu ar erlyn
- Gwneud y Tîm Twyll Corfforaethol yn barhaol ar ôl y cyfnod prawf
- Gwerth gorau
- Cyhoeddi achosion sydd wedi'u herlyn
- Ardaloedd targed

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr hyfforddiant a'r sylwadau a nododd fod cynnydd da wedi'i wneud. Ychwanegwyd bod rhwydwaith mewnol ardderchog a bod gwneud y tîm yn barhaol yn newyddion cadarnhaol.

**PENDERFYNWYD:** -

1) Nodi cynnwys yr hyfforddiant;
2) Dosbarthu'r cyflwyniad i'r pwyllgor.

47 **CYFLWYNIAD PENNAETH Y GWASANAETHAU MASNACHOL - STRATEGAETH MASNACHEIDDIO.**

Rhoddodd Chris Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Masnachol, gyflwyniad ar strategaeth fasnacheiddio. Amlygwyd y canlynol gan y cyflwyniad: -

3) Ymagwedd fasnachol
4) Pam mae angen newid arnom?
5) Nodau strategol Dinas a Sir Abertawe
6) Amcanion masnachol Dinas a Sir Abertawe
7) Masnacheiddio

Gofynnwyd cwestiynau i'r swyddog, a ymatebodd yn briodol.  Roedd y cwestiynau'n ymwneud â'r canlynol: -

- Meini prawf ar gyfer dadansoddi dyfynbrisiau
- Prisio mewnol
- Gwaith yr Adran Addysg
- Penderfynu ar gost darparu gwasanaethau
- Gwerthu arbenigedd
- Cydweithio ag ysgolion
- Cytundebau Lefel Gwasanaeth - Ysgolion
- Cyllidebau datganoledig

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Llywyddol am y cyflwyniad.

**PENDERFYNWYD**

1) Nodi cynnwys y cyflwyniad;
2) Gwahodd aelodau'r pwyllgor i ddod i'r gweithdai i benaethiaid sydd ar ddod;
3) Dosbarthu'r cyflwyniad i'r pwyllgor.

## 48 ADRODDIAD OLRHAIN GWEITHREDU'R PWYLLGOR ARCHWILIO. (ER GWYBODAETH)

Nodwyd Adroddiad Olrhain Gweithredu'r Pwyllgor Craffu er gwybodaeth.

Ceisiodd y pwyllgor eglurder o ran Adroddiad Blynyddol Archwiliadau Ysgolion 2015/16, mynediad aelodau i gronfa ddata Adran 106 a gweithdrefnau o ran archwiliadau sydd wedi derbyn lefelau sicrwydd cyffredin.

## 49 CYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO. (ER GWYBODAETH)

Cyflwynwyd Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio er gwybodaeth.

## 50 GWAHARDD Y CYHOEDD.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

## 51 ADRODDIAD YMCHWILIAD Y TÎM TWYLL CORFFORAETHOL.

Cyflwynodd Jeff Fish, y Swyddog Ymchwilio Twyll Corfforaethol, adroddiad a roddodd fanylion ymchwiliad gan y Tîm Twyll Corfforaethol i safle amwynderau dinesig.

Gofynnwyd cwestiynau i'r Swyddog Llywyddol, a ymatebodd yn briodol. Canolbwyntiodd y cwestiynau ar y camau a gymerwyd a'r gwersi a ddysgwyd ar ôl yr ymchwiliad.

**PENDERFYNWYD:** -

1) Nodi cynnwys yr adroddiad;

2) Y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Pennaeth Rheoli Gwastraff i ofyn am sicrwydd bod y gwasanaeth wedi mabwysiadu'r gwersi a ddysgwyd o'r ymchwiliad hwn.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.30 pm

**CADEIRYDD**